# Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017

**2017 dccc 2**

## RHAN 6

ASESIADAU O'R EFFAITH AR IECHYD

### 108 Gofyniad i gynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd

(1) Rhaid i reoliadau wneud darpariaeth ynghylch cynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd gan gyrff cyhoeddus.

(2) Mae asesiad o'r effaith ar iechyd yn asesiad o effaith debygol, yn y tymor byr ac yn y tymor hir, gam neu benderfyniad arfaethedig ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl pobl Cymru neu ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl rhai o bobl Cymru.

(3) Rhaid i'r rheoliadau bennu—

(a) yr amgylchiadau y mae rhaid i gorff cyhoeddus gynnal asesiad o'r effaith ar iechyd odanynt;

(b) y ffordd y mae asesiad o'r effaith ar iechyd i gael ei gynnal.

(4) Caiff y rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru roi cymorth i gorff cyhoeddus arall sy'n cynnal asesiad o'r effaith ar iechyd.

(5) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch sut y mae'r cymorth i gael ei roi, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) ynghylch pryd y mae i gael ei roi.

(6) Caiff y rheoliadau wneud darpariaeth sy'n gymwys yn ddarostyngedig i eithriadau a bennir yn y rheoliadau.

(7) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ystyried a oes personau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau'r rheini y mae'r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt ("personau cynrychiadol"), a

(b) cynnal ymgynghoriad ag unrhyw bersonau cynrychiadol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

## 109 Asesiadau o'r effaith ar iechyd: eu cyhoeddi a'u hystyried

(1) Pan fo corff cyhoeddus wedi cynnal asesiad o'r effaith ar iechyd yn unol â rheoliadau o dan adran 108 rhaid iddo—

(a) cyhoeddi'r asesiad, a

(b) ystyried yr asesiad wrth arfer y swyddogaethau hynny y cynhaliwyd yr asesiad mewn cysylltiad â hwy.

(2) Wrth ystyried yr asesiad, rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

(3) At ddiben is-adran (2), mae'r cyfeiriad at weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy i gael ei ddehongli yn unol ag adran 5 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi asesiadau, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) ynghylch pryd y mae asesiadau i gael eu cyhoeddi.

## 110 Ystyr "corff cyhoeddus"

(1) At ddibenion adrannau 108 a 109, mae pob un o'r personau a ganlyn yn "corff cyhoeddus"—

(a) Gweinidogion Cymru;

(b) awdurdod lleol;

(c) Bwrdd Iechyd Lleol;

(d) yr Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ganlyn—

(i) Iechyd Cyhoeddus Cymru;

(ii) Felindre;

(e) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;

(f) awdurdod tân ac achub yng Nghymru;

(g) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;

(h) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;

(i) Cyngor Celfyddydau Cymru;

(j) Cyngor Chwaraeon Cymru;

(k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru;

(l) Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

(2) Caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (1) drwy—

(a) ychwanegu person,

(b) dileu person, neu

(c) diwygio cyfeiriad at berson.

(3) Ond ni chaiff y rheoliadau ddiwygio is-adran (1) drwy ychwanegu person oni bai bod y person hwnnw yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.

(4) Os yw'r rheoliadau yn diwygio is-adran (1) er mwyn ychwanegu person a chanddo swyddogaethau o natur gyhoeddus a swyddogaethau eraill, dim ond mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny sydd o natur gyhoeddus y mae adrannau 108 a 109 yn gymwys i'r person hwnnw.

(5) Yn yr adran hon—

***Statws** This is the original version (as it was originally enacted).*

ystyr "awdurdod tân ac achub yng Nghymru" ("*Welsh fire and rescue authority*") yw awdurdod yng Nghymru a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42).